Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig "Ymchwiliad Craffu - Ad-drefnu Ysgolion yng Nghefn Gwlad Cymru" oddi wrth Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Ionawr 2009

Crynodeb Gweithredol

Rwy'n croesawu'r ymchwiliad hwn, a oedd yn eang ei gwmpas, a'r adroddiad, sy'n gytbwys.

Rwyf wedi nodi isod fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad.

Mae'r Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru:

(i) yn darparu canllawiau cliriach i'r awdurdodau lleol ar sut i ddiffinio ac ymdrin â lleoedd dros ben;

(ii) yn comisiynu ymchwil pellach i gost wirioneddol lle dros ben.

Ymateb: Derbyn rhan (i), Derbyn rhan (ii) mewn egwyddor

Gallaf dderbyn rhan gyntaf yr argymhelliad hwn oherwydd bod camau eisoes wedi'u cymryd i alluogi awdurdodau lleol i asesu'r lleoedd sydd ar gael yn eu hysgolion yn gyson. Mae Cylchlythyr Cyfarwyddyd 09/2006, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2006, yn darparu dull cyson o fesur capasiti ysgolion. Mae'r awdurdodau lleol wedi ail-fesur yr ysgolion yn raddol ac maent bellach mewn gwell sefyllfa i asesu a yw'r ysgolion o'r maint cywir ar gyfer nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr. Ar sail y wybodaeth a gesglir trwy'r gweithgaredd pwysig hwn y bydd awdurdod lleol yn pennu'r angen i gynllunio lleoedd ysgol. Fel y dengys y canllawiau drafft diwygiedig ar ad-drefnu ysgolion, gall nodi lleoedd dros ben fod o gymorth i awdurdodau lleol gyflawni adolygiadau strategol o'r ddarpariaeth ysgolion er mwyn asesu a yw patrwm y ddarpariaeth yn briodol. Nid ddylid ystyried bod cael gwared ar leoedd dros ben yn nod yn ei hunan. Er mwyn gwella canlyniadau addysgol y dylid gwella effeithlonrwydd y ddarpariaeth addysg.

Gallaf dderbyn rhan (ii) mewn egwyddor ond bydd hyn yn amodol ar drafod ag amrywiaeth o randdeiliaid ynghylch yr angen am ymchwil o'r fath, a'i gwmpas.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 2: Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn unrhyw ganllawiau newydd ar leoedd dros ben, yn datgan yn glir mai cyfrifoldeb pob awdurdod lleol unigol yw delio â materion defnyddio adnoddau a lleoedd dros ben o fewn ei gyllideb drwyddi draw a'i bolisi addysg.

Dylid ei gwneud yn glir mai'r awdurdodau lleol sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ac na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pwysau ar awdurdodau unigol.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd y canllawiau diwygiedig yn ei gwneud yn glir mai rôl yr awdurdod lleol yw cynllunio'r ddarpariaeth ysgolion ar sail y wybodaeth leol, er budd y disgyblion, gan roi ystyriaeth briodol i effeithlonrwydd. Mae angen hefyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn glir bod angen defnyddio'r adnoddau addysg sydd ar gael yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol bosibl, gan amddiffyn safonau addysg a'u gwella pryd bynnag y bo modd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd costau'r canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n cael eu talu o'r cyllidebau presennol (yn 2008/09 neu 2009/10).

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi gweledigaeth glir i ysgolion cynradd Cymru:
• I gynnwys diffiniad o'r hyn y mae "addas i'r diben" yn ei olygu;
• I fireinio a disgrifio "Safon Ysgolion i Gymru".

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor
Gallaf dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn unol â'i addewidion yn 'Cymru'n Un', eisoes wedi dechrau gweithio ar greu ac adeiladu gweledigaeth gyffredin o Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain (cynradd ac uwchradd) trwy weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r holl awdurdodau lleol. Gan symud ymlaen o'r cysyniad "addas i'r diben", rhoddir diffiniad o ysgol yr unfed ganrif ar hugain, er mwyn gosod safon i'r awdurdodau lleol weithio tuag ati. Gall CLILC a'r awdurdodau lleol gyfranogi yn y broses hon.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal archwiliad cynhwysfawr o'r ystâd ysgolion i sefydlu faint o safleoedd ysgolion a fyddai'n cydymffurfio â'r safon a faint o fuddsoddiad a fydd yn ofynnol er mwyn gwella holl ysgolion Cymru fel eu bod yn cyrraedd y safon hon.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Gallaf dderbyn egwyddor yr argymhelliad hwn, ac mae awdurdodau lleol eisoes yn cymryd camau i gyflawni'r egwyddor hwnnw. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fod â Chynlluniau Rheoli Asedau ar gyfer eu holl asedau cyfalaf. Elfen hanfodol o Gynllun Rheoli Asedau yw archwiliad cynhwysfawr, strwythurol o'r asedau ffisegol, gan gynnwys adeiladau ysgol. Mae'r

archwiliadau hyn yn seiliedig ar arolygon o gyflwr, addasrwydd a digonolrwydd yr adeiladau a dylid eu hadolygu a'u diweddaru.
Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i awdurdodau fod â Chynlluniau Rheoli Asedau ar gyfer gwasanaethau unigol. Dylai Cynllun Rheoli Asedau cadarn ar gyfer y gwasanaeth addysg gynnwys dadansoddiad trylwyr o'i gyflwr ac o'r angen am fuddsoddi. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn ei bod yn werth cael gwybodaeth gyfunol a chynhwysfawr am yr ystâd ysgolion yng Nghymru er mwyn gallu cynllunio, yn genedlaethol ac yn lleol, ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Bydd y Cynlluniau Rheoli Asedau unigol yn darparu'r wybodaeth hon.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 5: Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu strategaeth glir i sicrhau y bydd pob ysgol yng Nghymru yn cyrraedd y safon hon o fewn amserlen gyhoeddedig, y cytunwyd arni.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Gallaf dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Er hynny, mae angen cydnabod nad yw'r holl Awdurdodau Lleol yn yr un sefyllfa mewn perthynas â datblygu eu buddsoddi mewn ysgolion a'u strategaethau ad-drefnu. Yn unol ag Argymhelliad 3, bydd darparu ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn golygu newid sylweddol yn rhaglen buddsoddi cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn cyllido, dylunio a chaffael mewn modd strategol, gan gynnwys integreiddio TGCh, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol ac yn cynorthwyo â datblygu eu rhaglenni buddsoddi cyfalaf. Bydd Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn rhaglen hirdymor, dros nifer o flynyddoedd, a fydd yn cydnabod sefyllfaoedd amrywiol yr awdurdodau lleol o ran buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion a'u strategaethau ad-drefnu.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 6: Nid oes angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiffinio ysgol fach yn ôl y nifer o ddisgyblion sy'n gofrestredig ar unrhyw adeg – ond ei bod yn diffinio ysgol fach yn ôl y staff a baich addysgu'r Pennaeth er mwyn darparu cymorth a'i dargedu at yr ysgolion hynny lle mae'r mwyaf o angen cymorth o'r fath.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rwy'n derbyn nad oes angen diffinio "ysgolion bach" at ddibenion cynllunio lleoedd mewn ysgolion. Lle'r awdurdod lleol yw penderfynu ar faint priodol ysgolion, o fewn y cyd-destun lleol. Fodd bynnag, mae angen diffinio'r ysgolion hyn at ddibenion ymarferol penodol, megis dosbarthu grantiau wedi'u targedu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid grant ychwanegol ar gyfer ysgolion bach a gwledig ers 2002. Yn 2008/09, mae cyfanswm o £4.1miliwn ar gael. Mae'r Comisiwn Archwilio wedi nodi y byddai ysgol â 90 (neu lai) o ddisgyblion yn un a fyddai'n costio mwy, yn gyfrannol,

i'w rhedeg. O ganlyniad, wrth ddosbarthu cyllid sydd wedi'i dargedu ar gyfer ysgolion bach, mae'r awdurdodau lleol dan gyfarwyddyd i flaenoriaethu ysgolion â 90 neu lai o ddisgyblion ar y gofrestr. Targedir rhan o'r cyllid ychwanegol hefyd ar gyfer ysgolion sydd â phenaethiaid ag ymrwymiad addysgu sylweddol ar yr amserlen.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir am y gweithgarwch dosbarthu grantiau o'r cyllidebau presennol.

Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu cod ymarfer ar ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol â'r gymuned, y dylai awdurdodau lleol gadw ato wrth reoli'r broses hon.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Gallaf dderbyn yr argymhelliad hwn yn fras. Yn y dyfodol, bydd y canllawiau ymarferol ar gyflawni argymhellion statudol yn ceisio estyn yr arferion da a welir eisoes mewn ymgynghoriadau. Efallai nad yw'n briodol bod yn orgyfarwyddol trwy gyhoeddi cod ymarfer, ond byddwn yn ei gwneud yn glir bod angen digon o wybodaeth ac amser ar y partïon â diddordeb i gyflwyno eu safbwyntiau pan ofynnir iddynt ymateb i'r cynigion ar gyfer newid.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir costau canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r cyllidebau cyfredol yn y flwyddyn berthnasol (2009/10).

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys yr angen i AALl fod yn agored a thryloyw wrth ymgynghori ynghylch cynigion ad-drefnu ysgolion. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i ymgynghori ystyrlon, wedi'i seilio ar wybodaeth, fod wrth galon y broses hon.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn bod angen i'r ymgynghori fod o'r ansawdd uchaf posibl. Mae'r cylchlythyr diwygiedig yn nodi y byddaf yn ystyried digonolrwydd yr ymgynghori wrth bennu a ddylid cymeradwyo cynigion statudol y bu gwrthwynebiad iddynt. Mae swyddogion yn fy adran hefyd yn gyfrifol am ddarparu canllawiau ymarferol i awdurdodau lleol sy'n ystyried newidiadau i ysgolion. Mae canllawiau diwygiedig yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Ymdrinnir â materion ymgynghori o fewn y canllawiau hynny.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir costau canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r cyllidebau cyfredol yn y flwyddyn berthnasol (2009/10).

Argymhelliad 9: Yn ei chanllawiau diwygiedig, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru egluro a ffurfioli rôl yr holl randdeiliaid yn y broses cau. Dylai'r canllawiau diwygiedig eu gwneud yn glir fod disgwyl i awdurdodau lleol fynd ati o ddifrif i roi gwybodaeth i gymunedau lleol ac yna helpu'r cymunedau hynny i gymryd rhan yn y ddadl ynglŷn ag ad-drefnu addysg gynradd mewn unrhyw ardal neilltuol yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Yn ddiweddar, bu ymgynghori ynglŷn â'r canllawiau polisi bras sy'n nodi'r egwyddorion perthnasol i'r ystyriaethau ad-drefnu ysgolion. Bydd y canllawiau ynglŷn â materion gweithdrefnol megis ymgynghori ac ymgysylltu yn cael eu diwygio o fewn y flwyddyn nesaf. Bydd y canllawiau newydd yn cynnwys enghreifftiau o arferion da wrth ymgynghori â phartïon â diddordeb a byddant yn ceisio rhannu'r arferion da hyn ym mhlith yr awdurdodau. Rwy'n disgwyl i'r awdurdodau lleol ymgysylltu yn drylwyr â'r prif randdeiliaid wrth ymgynghori ynglŷn â chynigion i newid y ddarpariaeth ysgolion. Bydd y rhanddeiliaid allweddol yn amrywio yn ôl natur y cynnig. Dichon mai cymharol gyfyngedig fydd effeithiau rhai o'r newidiadau, o bosibl, ac eithrio ar y rhieni, y disgyblion a'r ysgolion sy'n gysylltiedig, ond bydd effeithiau eraill yn bellgyrhaeddol. Bydd y canllawiau diwygiedig yn annog yr awdurdodau i ystyried yn ofalus y rhai y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt, er mwyn sicrhau eu bod yn ymgysylltu digonol yn â'r holl bartïon.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Argymhelliad 10: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu ymchwil i'r effeithiau academaidd a chymdeithasol ar blant ar ôl iddynt symud i ysgol fwy.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Er fy mod yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, mae angen ei ystyried ymhellach ar y cyd ag argymhelliad 11. Er fy mod yn deall bwriad y Pwyllgor wrth wneud yr argymhelliad hwn, mae'n anodd cynnal ymchwil meintiol ystyrlon yn y maes hwn. Mae'n bosibl nodi sampl addas, er yn fach iawn, ar gyfer mesur cyrhaeddiad academaidd, ond ni fyddai'n bosibl nodi'r dylanwadau niferus ar ganlyniadau disgyblion ym mhlith y sampl, na chanfod ychwaith a yw'r cyrhaeddiad yn well ynteu'n waeth nag a fyddai fel arall. Byddai'n fwy priodol ystyried effeithiau trosglwyddo i ysgol fwy ochr yn ochr â'r math o ymchwil cymdeithasol ansoddol a awgrymir yn argymhelliad 11.

Goblygiadau Ariannol – l'w hasesu ar ôl rhoi ystyriaeth bellach i'r posibiliadau ymchwil.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu ymchwil i asesu a llwyr ddeall effaith cau ysgolion ar gymunedau yng nghefn gwlad Cymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Er fy mod yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, mae angen i mi ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach ar y cyd ag argymhelliad 10 er mwyn pennu dichonoldeb a chwmpas yr ymchwil a argymhellir. Yn y cyfamser,

byddai'n syniad adolygu unrhyw ymchwil a wnaed eisoes a'r wybodaeth sydd ar gael ynglŷn ag effeithiau cau ysgolion, gan gynnwys yr effaith ar gymunedau ac ar y canlyniadau addysgol a fel arall i'r disgyblion, cyn penderfynu a oes angen unrhyw ymchwil newydd. Gan fod yr argymhelliad hwn yn berthnasol i bortffolios Gweinidogion eraill, mae'n bwysig bod pob un sydd â diddordeb yn yr effeithiau yn cyfranogi yn y drafodaeth ynghylch y cynnig. Byddaf yn gofyn i'r swyddogion am gyngor pellach unwaith y bydd y trafodaethau hyn wedi'u cynnal.

Goblygiadau Ariannol – I'w hasesu ar ôl rhoi ystyriaeth bellach i'r posibiliadau ymchwil.

Argymhelliad 12: Dylai AALl gynnal asesiadau trylwyr o'r effaith ar y gymuned cyn cau unrhyw ysgol fach. Ar sail ei hymchwil ei hun, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu canllawiau i AALl ar ymgymryd ag asesiadau o'r fath o'r effaith ar y gymuned.

Ymateb: Derbyn

Gallaf dderbyn yr argymhelliad hwn, yn fras. Mae'r canllawiau cyfredol eisoes yn nodi ei bod yn berthnasol, wrth baratoi cynigion i gau ysgol, ystyried effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned ac i ba raddau y mae'r ysgol yn darparu adnodd dysgu i'r gymuned gyfan. Pan fo ysgol yn ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch y gymuned ac y byddai ei chau â goblygiadau tu hwnt i addysg yn unig, disgwylir i'r achosion a gyflwynir i Weinidogion ddangos bod opsiynau wedi'u hystyried ar gyfer cynnal y cyfleusterau cymunedol yn yr ardal. Mae'r canllawiau drafft diwygiedig yn awgrymu y dylai'r awdurdodau lleol ffurfioli'r ystyriaethau hyn trwy baratoi asesiad o'r effaith ar y gymuned. Pe bai ymchwil i'r effeithiau yn cael ei gomisiynu, gallai hwnnw, yn ei dro, fod yn sail i'r awdurdod lleol ystyried y materion cymunedol. Yn y cyfamser, bydd yr awdurdodau'n parhau i ddefnyddio'u crebwyll eu hunain wrth asesu effeithiau cau ysgolion. Mae'r canllawiau cyfredol yn ei gwneud yn glir mai'r buddiannau addysgol yw'r ystyriaeth bwysicaf, er y dylid ystyried buddiannau'r gymuned leol yn ogystal. Bydd y canllawiau diwygiedig yn parhau i adlewyrchu'r safbwynt hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir costau canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r cyllidebau cyfredol yn y flwyddyn berthnasol (2008/09 neu 2009/10).

Argymhelliad 13: Y dylai'r effaith ar yr iaith gael ei hystyried yn un o'r prif ffactorau pan fydd awdurdodau lleol yn penderfynu ynglŷn â chau ysgolion.

Ymateb: Derbyn

Gallaf dderbyn yr argymhelliad hwn, yn fras. Mae'r canllawiau drafft diwygiedig yn awgrymu y dylai'r effaith bosibl ar yr iaith Gymraeg gael ei hasesu gan yr awdurdodau lleol cyn iddynt gyflwyno cynigion. Mae'r effeithiau ar yr iaith o fewn yr ysgolion ac ar safonau dysg y disgyblion yn ystyriaethau hollbwysig. Yn hanesyddol, mae'r awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno

cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cynnig ysgolion cyfatebol fel dewisiadau eraill. Mae'r awdurdodau lleol wedi bod yn rhoi sylw i'r mater hwn eisoes, felly.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir costau canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r cyllidebau cyfredol yn y flwyddyn berthnasol (2008/09 neu 2009/10).

Argymhelliad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r broses ar gyfer ad-drefnu ysgolion er mwyn atgyfnerthu rôl awdurdodau addysg lleol, eu cynorthwyo â'u cyfrifoldebau o ran y broses ad-drefnu ac ystyried trosglwyddo'r hawl i glywed apeliadau yn erbyn cynigion i ad-drefnu ysgolion i gymrodeddwr annibynnol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Gallaf dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae gan awdurdodau lleol y pŵer eisoes i wneud newidiadau i ysgolion o dan ddarpariaethau Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae fy adran i yn cynorthwyo awdurdodau trwy gyhoeddi canllawiau ar y gweithdrefnau sydd eu hangen o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth honno. Mae adroddiad yr is-bwyllgor yn cydnabod dosraniad y cyfrifoldebau ar hyn o bryd. Pe cyflwynid y newidiadau i'r gweithdrefnau a'r cyfrifoldebau a awgrymir gan yr Is-bwyllgor, byddai angen deddfwriaeth newydd. Rwy'n barod i ystyried awgrymiadau'r Is-bwyllgor, a nodir yn yr argymhelliad hwn, gan gynnwys yr awgrym i drosglwyddo'r cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau i gymrodeddwr annibynnol, ond bydd angen i fy adran gynnal ymchwil helaeth i'r mater. Yn y cyfamser, rwy'n fodlon bod y ddeddfwriaeth gyfredol yn ddigon grymus ac yn rhoi digon o bosibilrwydd i'r awdurdodau ymgysylltu â'r rhai y byddai'r newid arfaethedig yn effeithio arnynt.

Goblygiadau Ariannol – Ni fyddai unrhyw oblygiadau o ganlyniad ystyried drosglwyddo pwerau.

Jane Hutt AC,
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau